OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1149

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

## RHAN 5

## Gorfodi

**Pwerau symud a gwasgaru**

**24.**—(1) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person (“P”) yn torri rheoliad 3(1), caiff y swyddog—

(a) cyfarwyddo P i ddychwelyd i’r man lle y mae P yn byw;

(b) symud P i’r man hwnnw.

(2) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod pobl wedi ymgynnull yn groes i reoliad 4(1), caiff y swyddog—

(a) cyfarwyddo’r cynulliad i wasgaru;

(b) cyfarwyddo unrhyw berson yn y cynulliad i ddychwelyd i’r man lle y mae’n byw;

(c) symud unrhyw berson yn y cynulliad i’r man lle y mae’n byw.

(3) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person (“P”) yn torri rheoliad 5(1), caiff y swyddog gyfarwyddo P i ymadael â Chymru.

(4) Wrth arfer y pŵer ym mharagraff (1), (2) neu (3), caiff swyddog gorfodaeth gyfarwyddo person i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae’r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol.

(5) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person (“P”) yn torri, neu ar fin torri, rheoliad 9(1), caiff y swyddog—

(a) cyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae’r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn stopio neu atal y toriad;

(b) symud P o leoliad neu leoliad arfaethedig y digwyddiad y mae’r swyddog yn amau ei fod yn cael, neu ar fin cael, ei drefnu yn groes i reoliad 9(1).